
# Dewch, dilynwch fi

**www.lambsongs.co.nz   Gan Jill Kemp (Cyf. Susan Williams)   Lluniau: Richard Gunther**




**Cerddodd Iesu i dref fechan yn ymyl llyn. Enw'r dref oedd Galilea. Roedd cychod pysgota ar y llyn.**



**Wrth i Iesu gerdded ar hyd y traeth gwelodd ddynion yn gweithio. Roedden nhw wedi bod yn pysgota ac wrthi'n atgyweirio'r rhwydi.**



**Galwodd Iesu arnynt, "Simon ac Andreas, dewch a dilynwch fi." Gwyddai Iesu eu henwau ac mae'n gwybod dy enw dithau hefyd.**



**Gollyngodd Simon ac Andreas eu rhwydi a dyna nhw'n dilyn Iesu. Wedi hynny wnaethon nhw fynd i bobman gyda Iesu i'w helpu.**




**Dywedodd Iesu wrthynt, " Yn lle dal pysgod byddwch yn dweud wrth bobl amdanaf fi. Dyna fydd eich gwaith newydd. Byddwch yn fy helpu i."**



**Aeth Iesu yn ei flaen ar hyd y traeth. Gwelodd ddau ddyn arall yn pysgota, Iago ac Ioan. Galwodd arnynt, " Dewch, dilynwch fi."**



**Neidiodd Iago ac Ioan allan o'u cwch a dyna nhw'n dilyn Iesu hefyd. Roedden nhw eisiau bod yn weithwyr iddo.**



**Mae Iesu eisiau i tithau ei ddilyn a dweud wrth dy ffrindiau cymaint mae o'n eu caru nhw fel y gallant hwythau ei ddilyn hefyd.**